# Bwled ar ôl bwled

(dewrder / penderfyniad)

Hon oedd yr eitem olaf ar y diwrnod olaf yn Saudi. Roedd Frank Gardner, gohebydd gyda'r BBC, a'r dyn camera Simon Cumbers yn edrych ymlaen at gael dychwelyd o'r rhan yma o'r byd. Dyma gyrraedd yr ardal yn hwyr yn y pnawn; ardal oedd yn edrych yn ddigon normal gyda thai melynfrown o'u cwmpas ac ychydig o blant yn chwarae ar y stryd. Fe fuon nhw wrthi'n ffilmio am hanner awr a phan oedden nhw ar fin gadael dyma gar yn parcio ar ochr y ffordd. Cerddodd dau ŵr ifanc tuag atyn nhw a dyma un ohonyn nhw'n tynnu pistol allan a'i anelu at Frank Gardner.

Gan ei fod yn rhugl mewn Arabeg plediodd arnyn nhw i beidio saethu. Rhedodd i ffwrdd i un cyfeiriad a Simon i gyfeiriad arall. Teimlodd Gardner rywbeth yn trywanu ei ysgwydd. Rhedodd ymlaen.

Clywodd fwy o saethu. Y tro hwn teimlai boen yn ei goesau. Syrthiodd ar lawr mewn poen. Roedd ei ysgwydd yn brifo ond roedd y boen yn ei goesau'n waeth. Ni allai symud o'r fan. Daeth cerbyd arall tuag ato. Daeth y gyrrwr allan a phistol bychan yn ei law. Plediodd â nhw unwaith eto ond yn ofer. Taniwyd pedwar bwled 9mm i'w gorff, i'w asgwrn cefn ac i ran isaf ei gorff. Daeth fflachiadau o wyneb y dyn â'r pistol i'w gof. "Roedd yn edrych arnaf â chasineb perffaith yn ei lygaid. Gelyn oeddwn i!"

Dechreuodd y dyn gerdded o'i gwmpas. Disgwyliai Gardner am y fwled olaf. Cogiodd ei fod wedi marw a syrthiodd ar ei wyneb. Dechreuodd y dyn ymbalfalu drwy ei bocedi. Yn un boced roedd meicroffon radio ac yn y llall roedd copi o'r Koran. Barn Gardner mai'r darganfyddiad hwn a achubodd ei fywyd. Aeth y dynion i ffwrdd ar wib gan ei adael yn gwaedu a'i waed yn llifo i'r llwch ar ochr y ffordd.

Daeth pobl o'r tai cyfagos yno, ond nid i helpu, nid i gynnig diod o ddŵr neu flanced. Roedden nhw'n llygadrythu arno ond yn gwneud dim i'w helpu. Daeth dau gar plismon heibio a'i godi, ac yntau'n griddfan, a mynd â fo i'r ysbyty agosaf. "Y peth olaf rwy'n ei gofio ydi gweiddi am rywbeth i leddfu'r boen a minnau ar y ffordd i mewn i'r theatr yn yr ysbyty. Rwy'n cofio cael pigiad yn fy mraich a dyna i gyd. Mi fues i'n anymwybodol am wyth niwrnod."

Pan ddaeth ato'i hun ar ôl y driniaeth y cwestiwn cyntaf a

ofynnodd i Amanda, ei wraig – oedd wrth erchwyn ei wely – oedd "Sut mae Simon? Ydio'n iawn?" "Na," atebodd hithau, "fe'i saethwyd yn farw yn y fan a'r lle."

Roedd hyn yn ergyd fawr i Frank gan ei fod wedi cydweithio â'r dyn camera am rai misoedd ac roedden nhw wedi dod yn gyfeillion. Araf iawn fu taith Frank wedyn. Bu'r meddygon, dan arweiniad Dr Peter Bautz, yn ei drin am 40 awr ac ar ôl dychwelyd i Brydain bu yn ôl ac ymlaen yn cael triniaethau, ond yr hyn oedd yn anhygoel oedd bod y prif organau yn ei gorff – yr iau, yr arennau, yr ysgyfaint, y stumog a'r galon – yn berffaith iach ac roedd yn gallu bwyta'n iawn. Ond mae mewn cadair olwyn ac yn ôl yr arbenigwr ni fydd byth yn gallu defnyddio ei goesau. Mae o mewn poen parhaol.

Erbyn hyn mae'n ôl wrth ei waith ac o dro i dro mae'n ymddangos ar newyddion y BBC a hynny yn ei gadair olwyn.

Adnod: "Yr wyf wedi ymdrechu'r ymdrech lew,"
2 Timotheus 4:7

Gweddi: Pan fydda i'n cael pethau'n anodd helpa fi i ymdrechu i'r diwedd. Amen.

Trafod:

- Beth yw pwrpas anfon gohebwyr i ardaloedd a gwledydd lle mae yna beryglon?
- Petaech chi wedi'ch saethu, fel y cafodd Frank Gardner, a fyddech chi'n barod i faddau i'r rhai a'ch saethodd?